

CYNGOR BRO MACHNO

Cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd ar nos Iau, 28ain o Ionawr 2021 am 7.30 trwy gyfrwng ZOOM

Presennol: Dafydd Gwyndaf (Cadeirydd), Eryl Owain, Eluned McFadden, Geraint Thomas, Eifion Davies, Claire Roberts, Ceri Phillips, Dylan Davies, Colin Jones a'r Cynghorydd Sir, Wyn Ellis Jones.

Cofnodion: Derbyniwyd cofnodion cyfarfod 26 Tachwedd 2020 fel rhai cywir, Eluned McFadden yn cynnig a Geraint Thomas yn eilio.

Materion Personol: Talwyd teyrnged gan y Cadeirydd i waith a chyfraniad Elfed Williams fel clerc i'r cyngor. Cafwyd ysbaid o dawelwch er cof amdano.

Estynwyd croeso i Dylan Davies a Ceri Phillips i'w cyfarfod cyntaf fel cynghorwyr cymuned.

Materion yn codi:

Toiledau: Cyflwynwyd diweddariad o ddarlleniad y meter trydan a bydd anfoneb ddiwygiedig yn cael ei pharatoi ar sail hynny.

Cafwyd ymateb gan y Cyngor Sir yn addo danfon gwybodaeth am y paneli solar.

Materion ffyrdd: Dim adroddiadau am broblemau o ran hen gerbydau'n achosi rhwystr.

Penderfynwyd cysylltu efo'r Cyngor Sir o ran problemau llifogydd a dŵr ar y ffyrdd ger Park Hill, ar Ffordd 'Sendy a ger Gadlas Ddol.

Penderfynwyd tynnu sylw at erydiad ochrau ffordd Tŷ Mawr.

Maes parcio'r Machno: Dywedodd y Cynghorydd Wyn Jones ei fod wedi codi'r mater efo swyddogion ac eglurodd nad oes hawl gan y Parc Cenedlaethol i orfodi'r perchennog i glirio neu dacluso'r safle. Awgrymwyd y gallai hyn fod yn fater y dylid ei ddwyn i sylw Asiantaeth yr Amgylchfyd.

Swydd Clerc: Dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi cysylltu ag unigolyn a allai fod â diddordeb. Yn y cyfamser, cytunwyd y byddai gwaith y clerc yn cael ei rannu ymysg aelodau, dan gyfarwyddyd y Cadeirydd.

Cwt Hers: Nodwyd bod Ymddiriedolwyr y Neuadd Goffa'n ddiolchgar iawn am gael defnyddio'r Cwt Hers dros dro tra bydd gwaith datblygu'r Hen Ysgol yn mynd rhagddo. Cadarnhawyd yr angen i wneud arolwg o'r adeilad, clirio unrhyw offer sydd yno a throsglwyddo'r goriadau.

Sgipiau Cymunedol: Dywedodd y Cadeirydd fod bil o £264 wedi ei dderbyn gan y Cyngor Sir ar gyfer sgip cymunedol Penmachno a dau fil o £264 ar gyfer Cwm. Er iddo egluro mai un sgip a gafwyd yn Cwm, a gofyn am estyniad cyn gallu talu, derbyniwyd dau fil eto gyda rhybudd fod yn rhaid talu ar unwaith. Gofynnwyd i'r Cynghorydd Sir ymyrryd.

Difrod i giât yr Eglwys: Adroddodd Eryl Owain fod dau contractiwr lleol wedi cytuno i gynnig pris am y gwaith. Mae wedi cysylltu â'r cwmni sy'n berchen y lori ac maent yn derbyn cyfrifoldeb am y difrod.

Cŵn yn baeddu: Nodwyd bod hyn yn parhau'n broblem felly bod angen cysylltu â'r Warden Cŵn. Nodwyd ei bod yn anodd gweithredu yn erbyn perchnogion cŵn sy'n baeddu heb dystiolaeth gadarn. Penderfynwyd bod angen arwydd yn gwahardd cŵn ger y giât fawr i'r cae chwarae.

Materion Ariannol:

Cadarnhawyd fod y cais am braesept 2021-22 wedi ei ddanfôn at y Cyngor Sir.

Eglurodd y Cadeirydd ei fod wedi derbyn dogfennaeth gan deulu Elfed Williams ac y bydd ef a'r Is-gadeirydd yn cael trefn ar bethau.

Ni fu'n bosib talu biliau a chyflwyno sieciau felly pasiwyd i awdurdodi Eryl Owain ac Eifion Davies i arwyddo sieciau, yn ogystal â Dafydd Gwyndaf.

Derbyniwyd cais am gyfraniad gan Ysgol Penmachno. Penderfynwyd ystyried y cais yn y cyfarfod nesaf.

Materion Cynllunio:

Nid oedd unrhyw geisiadau cynllunio i'w hystyried.

Materion eraill:

Nid oedd materion eraill i'w trafod.